# Gweithdy Dadansoddi Stryd

## Canllaw Athro

| Pwrpas y gweithdy |
|---|
| Nod y gweithdy yw i ddisgyblion gymhwyso eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n 'dda' neu 'ddrwg' am y stryd o flaen yr ysgol.<br>Bydd disgyblion wedyn yn creu byrddau gyda'u dadansoddiad i'w drafod gyda disgyblion eraill a rhieni. |

| Gweithgaredd | Amser dechrau | Parhad |
|---|---|---|
| • Cyflwyniad | | 5 munud |
| • Gweithgaredd i gynhesu – Atgoffa o'r gweithdy blaenorol | | 15 munud |
| • Ymweliad stryd – Dadansoddiad stryd ac adborth | | 30 munud |
| • Cyflwyno eich canfyddiadau | | TBA |

| Gweithgaredd | Amser |
|---|---|
| **Cyflwyniad**<br>• Trosolwg sydyn o'r prosiect ac atgoffa o bwrpas y gweithdy heddiw | **5 munud** |
| **Gweithgaredd i gynhesu**<br>• Atgoffa disgyblion o'r trafodaethau o'r gweithdy blaenorol.<br>   ○ Pethau'r oedden nhw'n eu hystyried yn 'dda'<br>   ○ Pethau'r oedden nhw'n eu hystyried yn 'ddrwg'<br>   ○ Anghenion gwahanol y bobl sy'n defnyddio'r stryd, h.y.,<br>   ○ Pobl sydd â nam ar y golwg.<br>   ○ Pobl hŷn<br>   ○ Plant a rhieni gyda choetsis | **5 mun tynnu llun**<br>**10 mun trafodaeth** |

| | |
|---|---|
| **Ymweld â'r stryd y tu allan i'r ysgol**<br>• Disgyblion yn cael:<br>    ○ Festiau llachar<br>    ○ Taflenni a phinnau ysgrifennu ar gyfer tynnu lluniau/gwneud sylwadau<br>    ○ Athro i gael cynllun sylfaenol mawr o'r stryd<br>• Goruchwyliwr yn cael ei benodi i bob grŵp<br>• Grwpiau dan oruchwyliaeth yn cael eu harwain at y stryd – disgyblion i:<br>    ○ Ystyried beth sy'n dda am y stryd a beth gellid ei wella<br>    ○ Cwblhau'r canfyddiadau ar y taflenni tynnu llun/sylwadau<br>• Dychwelyd i'r dosbarth a thrafod canfyddiadau<br>• Ysgrifennu/tynnu llun sylwadau ar gynllun o'r stryd<br>• Defnyddiwch y sylwadau a gasglwyd a'r cynllun stryd wedi'i farcio i helpu i lywio meysydd ar gyfer newid a lleoliadau/mathau/pwrpas ymyriadau dylunio. | **5 mun i drefnu grwpiau a cherdded at y stryd**<br><br>**2 munud briff/rheolau ar y stryd**<br><br>**10 mun tynnu llun** |
| **Cyflwyno eich canfyddiadau**<br>• Gan ddefnyddio'r darluniau a'r sylwadau gan y disgyblion, ewch ati i greu byrddau o:<br>    ○ Yr hyn mae'r disgyblion yn ei hoffi am y stryd<br>    ○ Yr hyn nad yw'r disgyblion yn ei hoffi am y stryd<br>    ○ Yr hyn yr hoffai'r disgyblion ei newid yn y stryd<br>• Gellir cyflwyno'r byrddau hyn i ddisgyblion eraill a rhieni i'w trafod.<br>• Gofynnwch i ddisgyblion a rhieni a ydyn nhw'n cytuno neu'n anghytuno â'r sylwadau a beth arall yr hoffent ei ychwanegu. | **Gellir gwneud hyn ar adegau sy'n gweddu i chi. Er enghraifft, rhowch ychydig o amser ystafell ddosbarth i'r neilltu ac efallai gosod y byrddau wrth giât yr ysgol i drafod gyda rhieni pan fyddan nhw'n nôl eu plant o'r ysgol.** |

# Taflen Arolwg

*Tynnwch lun o rywbeth*
**Da**
1

**Sut mae hyn yn gwneud i mi deimlo**

*Tynnwch lun o rywbeth*
**Drwg**
2

**Sut mae hyn yn gwneud i mi deimlo**

*Tynnwch lun o rywbeth*
**Yr hoffech ei weld**
3

**Sut mae hyn yn gwneud i mi deimlo**

4

**Sut mae hyn yn gwneud i mi deimlo**